# BTEC Diploma Sylfaen Genedlaethol mewn Rheoli Anifeiliaid Lefel 3



**Yn gryno**

Mae’r cwrs dwy flynedd hwn yn rhoi sail ymarferol a damcaniaethol i chi ar gyfer gweithio gydag anifeiliaid.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Rydych chi eisiau dilyn gyrfa yn y diwydiant tir.

... Rydych chi eisiau astudio yn y brifysgol.

...Rydych chi'n dymuno dod yn nyrs filfeddygol.

...Rydych chi eisiau cyfuniad o theori a gwaith ymarferol.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae hyn yw'r flwyddyn cyntaf o cwrs 2 flynedd ac yn cynnwys 15 uned yn amrywio o sesiynau theori yn bennaf, fel geneteg ac anatomeg, i bynciau ymarferol fel da byw fferm, hwsmonaeth a thrafod anifeiliaid bach.

Mae'r cwrs yn cynnwys 150 awr o leoliad diwydiant, lle byddwch yn magu profiad o weithio yn y diwydiant gofal anifeiliaid. Mae lleoliadau yn amrywio o swau a pharciau bywyd gwyllt i siopau anifeiliaid anwes a mlifeddygfeydd, yn y DU yn ogystal â thramor. Mae'r 150 awr i'w cwblhau yn eich amser eich hun ac yn ystod gwyliau coleg.

Mae'r uned gofal anifeiliaid yn sylfaen ar gyfer y gwersi ymarferol ac yn dod â chi i gysylltiad ag amrywiaeth fawr o anifeiliaid, o ystafell ymlusgiaid wedi ei stocio'n dda, ystafell gnofilod ac ardaloedd y tu allan.

Mae'r padogau o amgylch yr uned gofal anifeiliaid yn gartref i ddau asyn achub. Mae'r ganolfan geffylau yn gartref i ddetholiad o geffylau y gellir eu hymgorffori yn eich sesiynau ymarferol ar gyfer profiad gydag anifeiliaid mawr ac yn ystod sgiliau stad byddwch yn cael mynediad i'r holl offer yn ein gweithdai llawn stoc.

Os ydych chi'n dymuno teithio, mae llawer o gyfleoedd dramor, yn amrywio o waith cadwraeth yn Affrica i achub cathod mawr yn yr Unol Daleithiau.

Byddwch yn cael eich asesu trwy aseiniadau ysgrifenedig ac arholiadau, yn ogystal ag asesiadau ymarferol.

Ar ddiwedd y cwrs, byddwch yn ennill:

Diploma Sylfaen Cenedlaethol BTEC mewn Rheoli Anifeiliaid Blwyddyn un
Diploma Estynedig Cenedlaethol BTEC mewn Rheoli Anifeiliaid Blwyddyn 2
Gweithgareddau Sgiliau
Mathemateg a Saesneg
Bagloriaeth Cymru
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru, bydd angen isafswm o 5 TGAU gradd C neu uwch i gynnwys Mathemateg/Rhifedd Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, neu gymhwyster Diploma Lefel 2 priodol ar raddfa Clod gyda chymwysterau TGAU i gynnwys Mathemateg/Rhifedd

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mathemateg a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf ar radd C neu uwch.

Mae angen ymrwymiad llawn at fynychu, yn ogystal â pharch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc, hunangymhelliad ac angerdd am reoli anifeiliaid. Byddwch chi'n cael eich asesu'n barhaol ac mae disgwyl y byddwch yn parhau â'ch astudiaethau a gwaith cwrs/lleoliad gwaith yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau Diploma Sylfaen Cenedlaethol BTEC mewn Rheoli Anifeiliaid yn llwyddiannus, gallwch barhau i astudio'r Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid (gyda gwyddoniaeth). Ar ôl hynny, mae gennych y dewis i symud ymlaen i addysg uwch i astudio pynciau fel swoleg, nyrsio milfeddygol ac ymddygiad anifeiliaid, neu gallech ddod o hyd i waith mewn siopau anifeiliaid anwes, cytiau cwn a gwasnaethwyr cwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen i chi fod wedi cael chwistrelliad tetanws diweddar cyn dechrau gweithio gyda'r anifeiliaid.

Am resymau Iechyd a Diogelwch, bydd angen ichi brynu Cyfarpar Diogelwch Personol (PPE) cyn gweithio gyda'r anifeiliaid;

Wellingtons bodiau dur
Oferôlau glas tywyll
Cot lab glas tywyll
abag i gario eich PPE

Y chost y cyfarpar yw tua £40. Dylech brynu'r eitemau hyn cyn dechrau eich cwrs.